

(Name of Project)

by
(Name of First Writer)

(Based on, If Any)

Revisions by
(Names of Subsequent Writers,
in Order of Work Performed)

Current Revisions by
(Current Writer, date)

Name (of company, if applicable)
Address
Phone Number

HANES ACHOS LLYS YN ERBYN ELGAN JONES - LLOFRUDD 12
MLWYDD OED

WRTH I'R PLANT DDOD I MEWN I'R THEATR MAE CERDDORIAETH YN
CREU NAWS IASOL, LLAWN TENSIWN. FE GLYWIR Y GWYNT YN
CHWIBANNU YN Y COED, MAE STORM YN CODI. MAE HI'N TYWALLT Y
GLAW, MAE MELLTEN YN TARO.

WEDI I'R PLANT EISTEDD MAE'R SWN YN CYNYYDDU. GOLAU'R TY YN
GOSTWNG. MAE MELLT A THARANNAU I'W CLYWED ETO. YN SYDYN
MAE ERGYD GWN I'W GLYWED. MAE BOLLT MELLTEN ARALL AC YN
SEFYLL YNG NGHANOL Y LLWYFAN MAE ELGAN, BACHGEN IFANC, YN
SEFYLL DROS GORFF HIGGINS YR IS-GIPAR. MAE E'N DAL GWN YN EI
DDWYLO.

BLACOWT.

WRTH I'R BARNWR ORFFEN PARATOI A SIARAD MAE'R LLYS YN CAEL
EI OLEUO'N ARAF. HEN DDYN YDYW AC YN EDRYCH FEL EI FOD YN
RHY HEN I FOD YN FYW. GWISGAI WIG GWYN CYMYLOG GYDA CYRLS
MATIOG CWYRIOG BLER AR EI BEN. MAE EI WYNEB FEL HEN WALED
LEDR, UNWAITH YN LLAWN CYFOETH OND YN WAG AC YN FLINEDIG
ERBYN HYN. WRTH I'R BARNWR DDOD I MEWN MAE'R LLWCH YN
CHWYRLIO AC YN SETLO YNG NGOLAU'R HAUL.

WRTH I'R BARNWR DDOD MEWN.

CLERC

Pawb i sefyll! All be upstanding for the
Justice Captain Mills.

MAE'R CLERC YN AMNEIDIO AR Y RHEITHGOR I SEFYLL. MAE'R
RHEITHGOR YN CODI AR EU TRAFED YN ANFODLON. CERDDAI Y
BARNWR AT EI GADAIR AC EISTEDD.

BARNWR

Be seated, eisteddwch.

MAE'R RHEITHGOR YN EISTEDD.

BARNWR

I'm afraid that I don't speak the Welsh language very well, but due to the untimely absence of our translator the school mistress, Miss Thomas, I shall endeavour to use what little language that I have. Fy enw i yw Capten Mills a fi yw'r presiding judge for this court. Fe fydd chi, y jury yn gwrando with great attention i'r account of the trial, ac fe fydd yna dim siarad, no talking do you understand? Fe fydd chi y jury yn gwneud decision ar os yw'r accused yn guilty neu innocent...euog neu dieuog. Dw i'n deall bod 4 fforman wedi ei dewis allan o'r grwp. All y fformen identify themselves. Diolch yn fawr. Os yw yn guilty...euog, fe fydd fi yn dewis suitable punishment for the crime. Am y crime o murder...llofruddio, er engrhaifft cael ei crogi from the neck until he/she is dead. Meddylwch yn ofalus heddiw am y case sydd o'ch blaen. Mae eich decision fel jury yn y llys yma yn dylanwadu future yr accused. Rydym yn lwcus heddiw fod y public gallery uwch ben yn wag, felly bydd dim distractions. After all dim theatrical performance yw hwn. Heddiw mae dau case. Y cyntaf yw theft of livestock. Call the accused, Call Caleb Sneed.

MAE'R FRAWDDEG YN ATSEINIO O AMGYLCH Y LLYS.

CAWN EIN CLUDO I GELL,

CALEB SNEED

Tro cynta' mewn man hyn ?

Pam ti `ma te?

MAE CALEB YN ESTYN EI LAW

CALEB SNEED

Caleb Sneed.

Pwy wyt ti te?

Dwi m'ond yn trio bod yn gyfeillgar

ELGAN

Sdim angen cyfaill arnai i.

CALEB

O mae gen ti dafod yn dy ben di te?

ELGAN

Gad fi fod

CALEB

Gad fi fod - real babi swci!
Beth yw d'oesran di te? Deuddeg?

ELGAN

Undeg pedwar

CALEB

Undeg pedwar! Byddi di ddim yn para ar
y felin droedlath...

ELGAN

Y felin droedlath?

CALEB

Treadmill. Dou darn o bren, a mae rhaid
troedio am 6 awr y dydd i falu yd.

ELGAN

Chwech awr?

CALEB

Ie bydd angen pryd o fwyd da arnat ti i ti
bara' chwech awr. Be ti 'di neud? Dwyn
hances neu rhywbeth?

ELGAN

Gad fi fod.

CALEB

Dere mlan babi swci... beth wyt ti wedi gneud?

ELGAN

Lladd dyn.

CALEB SNEED

(WEDI EI DDYCHRYN) Gei `di`r rhaff am hynny. Yn sicr.

CLYWIR ENW CALEB SNEED YN CAEL EI ALW I FYND I`R LLYS AC MAE E`N EITHA BALCH I FOD ALLAN O`R GELL. MAE EDGAR YN CERDDED AT Y DRWS AC YN MYND ALLAN. MAE`R DRWS YN CAU YN GLEP.

MAE`N DIFLANNU.

BARNWR

Gadewch i ni glywed details y first case. Nagydw i wedi gweld ti o`r blaen?

CALEB SNEED

Na syr.

BARNWR

Mmm...Confirm your name - eich enw?

CALEB SNEED

Sneed. Caleb Sneed

BARNWR

Oed?

CALEB SNEED

Dauddeg saith mlwydd oed.

BARNWR

Cyfeiriad?

CALEB SNEED

3 Pitton Lane.

BARNWR

(Ysgrifennu) O, Pitton Lane. Charming.
Caleb Sneed, rydych chi wedi cael eich
charged with stealing a sheep. Do you
plead euog or dieuog?

CALEB SNEED

Dieuog, f'arglwydd.

BARNWR

What a surprise! Fe wnai ddarllen
datganiad a roddwyd gan PC Tudor Jones
ar y pumed o fis Hydref 1865.

CALEB SNEED

Wel ma fe'n snêc.

BARNWR

Fe gafodd Caleb Sneed ei weld yn lladd
ac yn dwyn dafad oddi ar dir Mr
Llywelyn.

BARNWR

Galwch y first witness.

CALEB SNEED

Wedes i ddiuog.

BARNWR

Glywes i Sneed. Now call the first witness
Call Mrs Protheroe!

VOICEOVER

Call Mrs Protheroe

MAE'R FRAWDDEG YN CAEL EI ATSEINIO O AMGYLCH Y LLYS. MAE MENYW FACH OEDRANNUS YN DOD I MEWN. MAE HI'N CERDDED YN FLER AC YN ARAF AC MAE WEDI GWISGO MEWN DU I GYD. MAE HI NAILL AI'N FYDDAR NEU NID YW'N DEALL GEIRIAU MAWR! MAE HI'N MYND AT FOCS Y BARNWR.

MRS PROTHEROE

I promise to say the truth the whole truth and nothing but the truth...

CALEB SNEED

Am y tro cyntaf erioed!

MRS PROTHEROE

... so help me God.

BARNWR

Yes, In your own time today Mrs Protheroe.

MRS PROTHEROE

Sori.

BARNWR

Name...Enw?

MRS PROTHEROE

Mrs Protheroe, 4 Rhos y Waun Cottages.

CALEB SNEED

Mae hi'n wrach!

BARNWR

Silence! Allech chi ddweud wrth fi beth weloch chi ar y day in question?

MRS PROTHEROE

Padn?

CALEB SNEED

Mae'n dweud celwydd!

BARNWR

Caleb Sneed, os chi ddim yn careful, you will be in contempt of court.

(MORE)

BARNWR (cont'd)

Nawr, Mrs Protheroe, allech chi dweud
beth wnaeth digwydd ar y dydd chi wedi
gweld Caleb Sneed?

MRS PROTHEROE

Pwy?

BARNWR

Caleb Sneed?

MRS PROTHEROE

Pwy yw e?

BARNWR

Y dyn wnaethoch chi accuse o stealing y
dafad? Y Dyn yna.

MRS PROTHEROE

O, o ie, wy'n cofio nawr.

SAIB

BARNWR

Wel?

MRS PROTHEROE

Mae e wedi dwyn dafad!

CALEB SNEED

Na, na, wnes i ddim!

BARNWR

Unrhywbeth arall?

MRS PROTHEROE

Na sai'n credu....

CALEB SNEED

Gwrach wyt ti!

BARNWR

I will have silence in court.

MRS PROTHEROE

Padn?

BARNWR
(Yn gweiddi) Silence in court!

MRS PROTHEROE
O, sori!

BARNWR
Nid ti, fe!
This is your final warning Caleb Sneed.
Eich rhybudd olaf. Os ydw i'n clywed pip
arall allan o chi,

MRS PROTHEROE
Padn?

BARNWR
Neu ti, byddech chi'n taken away to the
cells. Deall? Mrs Protheroe, wnewch chi
ddweud mwy. Resume your account?

MRS PROTHEROE
Padn?

BARNWR
Just tell us beth wnaeth digwydd ar y
dydd yna?

MRS PROTHEROE
Pa ddydd?

BARNWR
Y dydd welsoch chi Caleb Sneed!

MAE GOLWG SYN AR WYNEB MRS PROTHEROE

BARNWR
Gyda Sheep, dafad!

MAE'R HEN FENYW YN DECHRAU ADRODD EI STORI

MRS PROTHEROE
O, ie, ie....mi weles i Caleb Sneed gyda
dafad

BARNWR

Ni'n gwybod hyn, Mrs Protheroe,
unrhywbeth arall sy mynd i helpu ni
convictio yr unsavoury character `ma?

CALEB SNEED

Nawr dyw hynna ddim yn deg!

BARNWR

Unrhyw gair arall mas o ti, a wnai gyrru
chi lawr, heb treial. Bydd yn dawel!

CALEB SNEED

Ond chi'n helpu hi.

BARNWR

Mrs Protheroe, plis allech chi ddweud
exactly beth wnaeth digwydd ar y dydd
wnaethoch chi gweld Caleb Sneed gyda
dead dafad ar tir Mr Llywelyn?

MRS PROTHEROE

Ma' hynna'n wir f'arglwydd, oeddech chi
yna hefyd?

BARNWR

Dyw hyn yn dda i ddim-

CALEB SNEED

Nag yw, am ei bod hi yn dweud celwydd.
Hi roddodd y ddafad i mi.

MRS PROTHEROE

Padn?

BARNWR

Mrs Protheroe, wnaethoch chi rhoi y
ddafad i Caleb Sneed.

MRS PROTHEROE

Pa ddafad?

BARNWR

Ffein. (Mae'n taro y morthwyl ar y fainc)
Mae'r ddau o chi mewn contempt of
court, does gennyf ddim dewis, chi, Mrs
Protheroe am fod yn unreliable witness,
ac am wasting the courts time, byddwch
chi yn tread the treadmill am twenty one
days!

YN YSTOD Y RHAN NESAF MAE'R LLYS YN CWYMPO I MEWN I
ANRHEFN LLWYR GYDA MRS PROTHEROE A CALEB SNEED YN
GWEIDDI AR DRAWS EI GILYDD A'R BARNWR YN CEISIO YN OFER I
GADW RHYWFATH O DREFN.

MRS PROTHEROE

Ond dwi'n eighty four!

BARNWR

Take her away!

MRS PROTHEROE

O, dwi'n cofio nawr...!

CALEB SNEED

Rhy hwyr. Rhy hwyr. Ewch a hi lawr!

BARNWR

Tawelwch in court!

MRS PROTHEROE

...Roedd hi'n ddiwrnod gwyntog ym mis
hydref, roedd hi mor wyntog, roedd rhaid
i mi glymu fy het, gyda dim un ond dau
gwlm...

BARNWR

Diolch Mrs Protheroe, rydym wedi
concluded with your evidence for the
day.

MRS PROTHEROE

Padn?

BARNWR

Get out of my sight!

MAE HI'N GADAEL FEL NA WYDDAI BLE YN UNION Y MAE HI, NAC YCHWAITH PAM EI BOD WEDI BOD YNO.

CALEB SNEED

Dyfarniad teg! Da iawn.

BARNWR

Bu dawel! So to sum up the case Caleb Sneed, ti wedi cael dy weld yn lladd sheep ar private land. Roeddech chi wedi cael eich dal yn red handed. Mae hyn yn clear case of theft of livestock. Fe wnai ofyn i'r jury am ei verdict. Euog neu di-euog?

Ydy Sneed yn euog neu'n ddieuog o ladd a dwyn dafad? Discuss. Unwaith rydych chi wedi reach a verdict, byddai'n galw arnoch chi i sefyll a dweud eich penderfyniad.

MAE'R RHEITHGOR YN PENDERFYNU.

BARNWR

O dyfarniad teg. Caleb Sneed, rydych chi wedi cael eich cael yn euog o'r crime of theft of livestock, nid dyma'r tro cyntaf i chi fod yn y court. Rydych chi wedi bod yn persistent offender. I sentence you to 10 years hard labour.

AD-LIB OS MAE'R PENDERFYNIAD YN DDI EUOG.

CALEB SNEED

F'arglwydd na, dwi'n erfyn arnoch chi, plis, byddwch yn drugarog!

BARNWR

Consider yourself lucky, Sneed. Mae dynion wedi crogi am less na hyn. Take him away!
Dyna yw'r punishment am dwyn sheep yn y year of our sovereign Queen Victoria 1865

MAE'R DDEDFRYD YN CAEL YCHYDIG IAWN O EFFAITH AR Y BARNWR.
 MAE'N TARO'R MORTHWYL YN GALED AR Y FAINC, AC YN GALW'R
 ACHOS NESA'. MAE CALEB SNEED YN CAEL EI ARWAIN O'R LLYS.

BARNWR

Call the next case. Call Elgan Jones.

FE WELWN ELGAN YNG NGANNOL Y LLWYFAN.

MAE ELGAN YN DOD I MEWN I'R LLYS.

BARNWR

The Crown versus Elgan Jones. Elgan
 Jones, rydych wedi chargo gyda,
 trespassing, How do you plead euog o'r
 dieuog

ELGAN

Sa i'n gw'bod, sa i'n deall.....

BARNWR

How do you plead?

ELGAN

Roeddwn i ar y tir, oeddwn.

BARNWR

Felly Euog. Bydd hyn ddim yn cymryd yn
 hir iawn.
 Rydych hefyd wedi eich cyhuddo o ddwyn
 broach, eiddo Lady Isabella Lennox.
 Euog neu ddi-euog?

ELGAN

Di-euog

BARNWR

O nawr ti'n dysgu! A'r charge olaf o
 lofruddio Higgins y cipar, ar y Margam
 Estate, ar October 31st 1865. Cafodd
 Higgins ei ladd gyda shotgun wound to
 the stomach. Euog neu di-euog?

ELGAN

Di-euog.

Can you verify your name?

ELGAN

Dwi ddim yn deall

BARNWR

Oh, when will these people learn the Queen's English? Name....Enw?

ELGAN

Elgan Jones.

BARNWR

Oed?

ELGAN

Deuddeg mlwydd oed.

BARNWR

Cyfeiriad?

ELGAN

27 Church Cottages. Taibach. Port Talbot.

BARNWR

Felly rydych chi yn tenant i Mr Talbot. Wnaethoch chi dwyn o ddyn da, oedd wedi rhoi roof dros eich pen chi a eich teulu. Ydych chi'n deall be all ddigwydd i'ch mam a'ch tad because of your crime. Bydden nhw yn cael eu evicto from their home.

ELGAN

Dwi ddim yn deall.

BARNWR

Bydd dim cartre' gyda'ch mam a tad, a'ch teulu.
Ydy eich tad yn gweithio?

ELGAN

Cafodd fy nhad ei anafu yn pwll glo y Morfa, ac nid yw'n gallu cerdded dim mwy. Mae mam yn gwneud y golchi i bobl eraill, er mwyn cael arian.

BARNWR

Yes, yes, my heart bleeds for you. Ai ti yw'r hynaf yn y teulu?

ELGAN

Ie.

BARNWR

Yr un y mae'r teulu yn depends on, dibynnu arno?

ELGAN

Ie.

BARNWR

Wel, rydych chi ddim yn dangos good example, ydych chi, bringing shame on your family yn y ffordd yma.

ELGAN

Ond, d'y'ch chi ddim yn deall....

BARNWR

Tawel. Chi y jury sydd am benderfynnu fate y bachgen yma. Nid ydynt wedi bod yn leniant iawn hyd yn hyn. Allai ddim dweud pa mor serious yw'r crimes yma. Trespassing, theft and worst of all murder. Rwy'n gofyn i chi y jury, talu sylw mawr i'r evidence. May God be with you. Call the first witness, galwch Lady Isabella Lennox

LADY ISABELLA

I promise to tell the truth the whole truth and nothing but the truth so help me God.

JUDGE

Welcome Lady Isabella to my courtroom. I trust you have been given suitable refreshments before this trying ordeal.

LADY ISABELLA

Yes, everyone has been so kind. Thank you.

JUDGE

Can you tell us what happened on the day in question.

LADY ISABELLA

I had been accompanying my papa...

JUDGE

...Lord Lennox.

LADY ISABELLA

Yes that's correct. Lord Lennox, My mama had passed away a year earlier-

JUDGE

So sorry.

Thank you. I accompany my father on many of his business trips. I had just celebrated my fourteenth birthday. Mr Talbot had giving me a horse as a birthday gift. So I was looking forward to going riding that day.

JUDGE

Tell us how you encountered the accused?

LADY ISABELLA

On that horrific day I was riding through the woods, something spooked my horse, it reared and I fell. My horse bolted and I was all alone in the woods. I was lost.

WE ARE TRANSPORTED BACK TO THAT DAY.

ELGAN APPEARS IN THE WOODS ON THE DAY

ELGAN

Dylsech chi wrando ar dy geffyl,
mae anifeiliaid yn synhwyro perygl

LADY ISABELLA

Then this boy appeared. Speaking in a
strange language. You must speak the
Queen's English. Are you saying that
an animal is more intelligent than
a human?

ELGAN

They have an instinct yes, a survival
instinct.

LADY ISABELLA

But he wasn't in any danger?

ELGAN

You don't know that?

LADY ISABELLA

He was very ill mannered
I need to find my horse and get back to
the house?

ELGAN

House? Mwy fel castell.

LADY ISABELLA

(to the jury)
He was mocking me.
(to Elgan)

Are you mocking me?

ELGAN

No.

LADY ISABELLA

Well, can you help me?

ELGAN

Help you? I'm not sure I should.

LADY ISABELLA

Why not? If you help me I will make sure
my father will reward you.

ELGAN

Reward me. Fy ngwobrwyo

LADY ISABELLA

Yes. My name is Lady Isabella Lennox.
What is your name?

ELGAN

Elgan.

LADY ISABELLA

ELGAN?

ELGAN

It's a welsh name?

LADY ISABELLA

It's a funny name.
Yes well funny to me. How do you spell
it?

ELGAN

E-L-G-A-N.

LADY ISABELLA

So what are you doing on Mr
Talbot's land?

ELGAN

Well I was just about to...

LADY ISABELLA

...Are you a beater for the hunt
tomorrow?

ELGAN

The hunt?

LADY ISABELLA

Yes, here on the Margam estate. My father and his business acquaintances have been invited by Mr Talbot to go hunting. There are lots of deer here.

ELGAN

Yes, that's right, I'm a beater. I best be off and make sure there are no poachers about to get your father's game before tomorrow.

LADY ISABELLA

Oh, don't worry about that. He is not going to catch anything. These weekends are all about business, progress and money. My father buys land to build railways.

ELGAN

Prynu tir?

LADY ISABELLA

from these lazy tenant farmers, who have no money to pay their rent and so my father buys their land. He is one of the men who is responsible for making Britain great.

ELGAN

O ydy e?

LADY ISABELLA

So are you going to help me find my horse and get your reward?

ELGAN CONSIDERS IT

ELGAN

Iawn. If you say your father will pay me, then yes.

SUDDENLY LADY ISABELLA IS ABOUT TO WALK ONTO ELGAN'S TRAP

ELGAN

Arhoswch. Don't move!

LADY ISABELLA

What's this?

ELGAN

I don't know, looks like a poachers trap

SHE SEES THE TRAP. THEY BOTH LOOK AT ONE ANOTHER.

LADY ISABELLA

You are not a beater are you? You are a poacher.

LADY ISABELLA

Poaching is against the law.

ELGAN

Pa ddewis sy gen i?

LADY ISABELLA

You have no right to be here.

ELGAN

Ond mae gen ti yr holl dir `ma.

LADY ISABELLA

You are committing a crime.
I will inform Mr. Talbot at once.

ELGAN

Gobeithio wnewch chi ffindo eich ffordd nôl i'ch castell!

LADY ISABELLA

He called after me, mocking me.!

BACK TO THE COURTROOM.

LADY ISABELLA

When I finally got back to the house, after searching for my horse. I was in a dreadful state. I informed my Papa and Mr Talbot at once. Mr Talbot called the local police, and my father told me to go to my room to rest. I was very upset.

(MORE)

LADY ISABELLA (cont'd)

I went to my room, and noticed that someone had been in there, my clothes were strewn across the floor and my jewellery box was turned upside down and a brooch belonging to me was missing. My mama had given it to me before she passed away. It was the most precious thing I owned. Someone had stolen it.

JUDGE

It must have been of great value to you.

LADY ISABELLA

Yes.

JUDGE

Who do you believe stole the brooch?

LADY ISABELLA

It could only be one person, and that person is him. He had no right to be on the land.

(she points at Elgan)

Elgan Jones.

ELGAN JONES

Dyw hynny ddim yn wir.

JUDGE

Silence.

LADY ISABELLA

My brooch was in your possession when the policeman apprehended you.

JUDGE

Yes, thank you Lady Isabella. We will now call the next witness.

Lady Isabella this must have been very distressing for you. I appreciate you giving your time to return to South Wales to be a witness in this case. Give my kind regards to Lord Lennox.

LADY ISABELLA

I will. Thank you.

JUDGE

There are no further questions. You are free to go.

BARNWR

Wel fel y clywsom, fe'ch gwelwyd yn potsian ar y tir. Rydych chi'n gwneud hyn yn hawdd iawn i'r Rheithgor. Fodd bynnag, byddwn yn awr yn galw'r tyst nesaf. Galwch PC Brynmor Evans.

GOLAU I LAWR A FFOCWS AR ELGAN

ELGAN

Ddylwn i ddim hyd yn oed fod yma. Edrychwch arnyn nhw, byddan nhw i gyd yn ei chredu hi oherwydd ei bod hi'n gyfoethog. Maen nhw'n meddwl ei bod hi'n iawn iddyn nhw gymryd oddi wrthym ni, cymryd heb ofyn, cymryd yr hyn nad yw'n perthyn iddyn nhw. Rwy'n betio eu bod yn meddwl oherwydd fy mod yn dlawd, lleidr ydw i. Rwy'n lladrata oherwydd fy mod yn dlawd. Felly beth os oeddwn i'n potsio ar y tir? Pan nad oes gennych unrhyw beth, nid oes gennych unrhyw beth i'w golli. Does ganddyn nhw ddim syniad beth mae'n rhaid i ni fynd drwyddo dim ond i fynd trwy'r dydd.

MAE PC EVANS YN DOD I MEWN I'R LLYS.

PC EVANS

I promise to say the truth the whole truth and nothing but the truth. Fy enw i yw PC Evans.

YN YSTOD EI ARAITH MAE'N DANGOS MAINT TIR Y TALBOTS DRWY DDANGOS Y MAP I'R RHEITHGOR.

PC EVANS

Fi yw'r heddwas ar gyfer ardal Port Talbot a'r ardaloedd cyfagos. Ar y diwrnod sydd dan sylw cyn i Higgins gael ei ladd, cefais fy ngalw i'r ty mawr. Roedd broets wedi mynd ar goll o `stafell wisgo Lady Isabella Lennox. Roedd Lady Isabella a'i thad yn westeion i Mr Talbot ac yn cymryd rhan yn yr hela oedd yn ddigwydd ar yr ystad. Wedi gwneud ymholiadau fe'm hysbysebwyd gan Lady Isabella fod bachgen ifanc wedi cael ei weld yn tresbasu ar y tir ynghynt y diwrnod yna. Wedi holi gweision y ty fe benderfynais archwilio yr ystad. Nawr rydw i wedi dod a `chydig o brops gyda fi i helpu gyda fy nhystolaeth. Roeddwn yn ymwybodol y gall y lleidr fod yn unrhywle a gyda maint yr ystad yn 850 erw, fe fyddai'n rhaid bod yn fanwl iawn. Fe welwyd y bachgen ar ochr ddwyreiniol yr ystad, fan hyn (yn pwyntio at y map) wrth y goedwig, fan hyn (yn pwyntio). Mae'r goedwig sydd yn ffinio a'r stad yn le amlwg i guddio. Mi roedd y goedwig yn drwchus ac roedd hi'n dechrau nosi.

MAE PC EVANS YN CLICIO EI FYSEDD AC MAE'R GOLAU YN DIFFODD.

Roedd yn anodd iawn gweld. Yn sydyn fe glywais ergyd gwn,

GUNSHOT

rhedais tuag at y swn. Yna yn sefyll dros gorff y cipar roedd bachgen ifanc. Roedd y cipar yn gorwedd ar y llawr gyda anafiadau amlwg i'w stumog. Roedd ffrwgwd wedi bod. Roedd yna olygfa erchyll. Gwaed ymhob man, dros ddwylo a dillad y bachgen. Fe es i at Higgins i archwilio y sefyllfa, ond doedd dim bywyd ynddo. Roedd wedi marw. Penderfynais dychwelyd i'r ty gyda'r bachgen ifanc.

MAE PC EVANS YN AIL ACTIO YR OLYGFA, MAE'N CYDIO YN SGREPAN
ELGAN AC YN EI ARWAIN AT FERCH IFANC GYFOETHOG, Y
FONEDDIGES ISABELLA LENNOX.

ELGAN

Paid, chi'n brifo!

PC EVANS

Bydd yn dawel! Cafodd Lady Isabella ei
galw i adnabod y bachgen ifanc.

LADY ISABELLA

Well, have you found my brooch?

PC EVANS

No, my Lady we have not found your
brooch, but we found this urchin in the
woods, have you seen this boy before?

PC EVANS

Tyn dy gap `achan!

LADY ISABELLA

Yes, I saw him earlier today, whilst out
riding. He was poaching, blatantly
poaching on Mr. Talbot's land.

ELGAN

Be mae hi'n dweud?

PC EVANS

Bydd yn dawel. Forgive me my lady. He
has done a lot more than poach. I can
tell you! It wouldn't surprise me if it was
him who stole your brooch in the first
place. Yna es i ati i archwilio y bachgen.
Ffindes yn ei boced, y froets....

LADY ISABELLA

My brooch!

PC EVANS

My evidence!

LADY ISABELLA

Well be sure to return it at once, it is of great value to me.

Arbennig Brynor, Arbennig. Wedes i wrth fy hun.

Dwi'n eich arestio chi am drespasu ar dir Mr Talbot, dwyn eiddo Lady Isabella, a llofruddio dyn onest, Higgins.

RYDYN NI NOL YN Y LLYS

PC EVANS

Byddet ti'n crogi am hyn, y cnaf.

MAE ELGAN YN OFNUS

ELGAN

Crogi? Maen nhw'n ei gredu. gallaf ddweud. Maen nhw'n credu y gallwn i ladd dyn. Maen nhw'n credu fy mod i'n anghenfil. Pe bawn i'n gallu troi'r cloc yn ôl yn unig. Pe bawn i ddim ond yn gwranddo ar fy mam y bore hwinnw a pheidio â gosod troed ar y stad. Os mai dim ond fy nhad oedd heb gael ei anafu. Pe na baem erioed wedi dod yma i'r dref fudr, fudr hon i ddod o hyd i waith. Pe buasem ni erioed wedi colli ein tir, pe buasem wedi cael cynhaeaf da y flwyddyn hono, pe yn unig y gallasem gael digon o ymborth i fyw. Pam na allem ni fod wedi cael hynny? Pam na allwn ni gael hynny? Mae angen i mi siarad allan neu fe fyddai i'n crogi...

BARNWR

I ailadrodd Elgan Jones. Rydych chi wedi tresmasu, wedi dwyn oddi ar ferch ddiniwed ac wedi lladd dyn. Galwch y tyst nesaf. Galwch Elizabeth Frome

ELGAN

F'arglwydd, pryd gai i gyfle i ddweud fy stori i?

BARNWR

Be ar wyneb y ddaear fedrwch chi
ddweud i helpu'ch sefyllfa. Cawsoch chi
eich dal yn red-handed!

ELGAN

Ond f'arglwydd...

BARNWR

Roedd eiddo Lady Isabella wedi ei
darganfod ar eich person...

ELGAN

Ond nid fi wnaeth dwyn y broets.

ELIZABETH

Celwydd!

BARNWR

Rhagor o weiddi fel `na a mi fyddwch
chi'n contempt of court, young lady.

ELIZABETH

Rwy'n flin, f'arglwydd.

BARNWR

Chi'n hwyr!

ELIZABETH

Rwy'n flin f'arglwydd!

MAE ELIZABETH FROME YN DOD MEWN I'R LLYS. YN YMDDIHEURO I
BAWB.

ELIZABETH

Dwi'n addo dweud y gwir a dim ond y
gwir, yn enw Duw.

BARNWR

Eich enw a lle d'ach chi'n gweithio?

ELIZABETH

F'enw i yw Elizabeth Frome, dwi'n forwyn
yn y gegin yn nhy teulu'r Talbot. Dwi
wedi bod yn gweithio yna am ddwy
flynedd nawr.

BARNWR
Hmmm a cyn hynny?

ELIZABETH
On i'n gweithio i deulu yn Gloucester.

BARNWR
Ac am faint oeddech chi'n gweithio yna?

ELIZABETH
Tair blynedd, f'arglwydd.

BARNWR
Pam daethoch chi yn ol i dde Cymru?

ELIZABETH
Mae'r cyflog yn well.

BARNWR
O?

ELIZABETH
A roedd fy mrawd yn gweithio fan hyn.

BARNWR
Ydych chi'n mwynhau gweithio i Mr Talbot?

ELIZABETH
O...O... Ydw, f'arglwydd, mae gen i to uwch fy mhen, a dwi'n cael digon o fwyd. Dwi'n cael cyflog o £12 y flwyddyn. Ond dwi'n danfon peth arian gatre i mam yn Nhreforus. Mae gen i bump brawd, a ddwy chwaer....

MAE'R BARNWR YN DECHRAU COLLI AMYNEDD.

BARNWR
Eich evidence, please?

ELIZABETH
O...o...iawn, f'arglwydd!

YN YSTOD EI HARAITH, RYDYN NI YN MYND I MEWN I GEGIN Y TY.
GWELIR BWRDD HIR YNG NGHANOL Y LLWYFAN, GYDA SOSBENNI A
BWDY ARNO.

ELIZABETH

Ar y diwrnod trist `na, pan gafodd
Higgins ei ladd, roedd hi'n ddiwrnod
prysur yn y ty. Roedd ymwelwyr pwysig
wedi cyrraedd i hela.

CLOCH

Roedd y clychau yn canu drwy'r dydd,
gyda ni, y gweision, yn brysur yn paratoi
y bwyd ar gyfer cinio y noson honno.
Roedd popeth yn edrych yn berffaith,
roedd hyd yn oed lliain wen wedi ei osod
ar y bwrdd gegin, rhag ofn i'r ymwelwyr
ddod i weld y gegin. Roedd shwd
gymaint o fwyd. Ar y fwydlen oedd,
Scotch Broth, wy wedi ffrio, gateaux a
gwydd wedi rhostio. `Dwi erioed wedi
gweld shwd wledd yn fy myw. Roedd Mr
Franks y cogydd eisiau fi i baratoi y
ffesantau. Roedden nhw wedi bod yn
hongian am dridau ac yn barod i
diberfeddi, ei gyto nhw, cymryd eu tu
mewn nhw mas. Beth chi'n neud yw
slito'u croen nhw, ac yna tynnu y croen
yn ol, er mwyn gweld y perfeddion, yna
tynnu nhw mas...
Es i i'r pantri i baratoi yr aderyn. Yna
glywes i drws y gegin yn cau wap.

DAW ELGAN I MEWN A CUDDIO O DAN Y BWRDD

Des i nol i edrych pwy oedd yna, ond
doedd neb i'w gweld. Y gwynt siwr o fod,
meddwn i wrth fy hun. Troes i nol i'r
pantri ac yna yn sydyn agorodd y drws
eto...

DAW HIGGINS I MEWN I'R GEGIN GYDA GWN HELA

HIGGINS

Ydych chi wedi gweld y wenci?

ELIZABETH

...A dyna le oedd Higgins.

HIGGINS

Wel?

ELIZABETH

Pa wenci?

HIGGINS

Mae potsiar ar y stad, yn dwyn
cwningod. Roedd e'n dod tua'r ty. Ydych
chi `di gweld e?

MAE HIGGINS YN ARCHWILIO'R GEGIN.

ELIZABETH

Na, neb, fel y gwelwch chi rydw i lot rhy
fishi i edrych am botsiar.

CLOCH YN CANU

Bydd Mr Franks ar fy ôl i os nad ydw i
wedi cwpla fy ngwaith!

MAE HIGGINS YN SYMUD O AMGLYCH Y BWRDD.

HIGGINS

Dwi'n sicr daeth e ffordd hyn, felly os
ydych chi'n i weld e, mae'n gyfrifoldeb
arnoch chi i weud wrtho ni y cipars,
ydych chi'n deall?

ELIZABETH

Ydw.

HIGGINS

Mae yn erbyn y gyfraith i botsio ar dir y
meistir.

ELIZABETH

Dwi'n gwbod.

HIGGINS

Mae'r potiers `na yn filain, cneifion i gyd,
 yn dwyn ac yn lladd eiddo pobl eraill.
 Dim ond wythnos yn ôl, cafodd Stubbs, y
 pennaeth, ei ddal, a'i grogi o goeden,
 ben ei weired, a'i bwrw `da draenen ddu.
 Nawr os daliai i y person wnaeth
 wneud....

MAE ELGAN YN TRIO DIANC, OND MAE HIGGINS YN EI DAL E.

HIGGINS

Potsiar?
 Be wyt ti'n neud o dan fyna!

ELGAN

Cuddio!

HIGGINS

O bwy?

ELGAN

Chi, wrth gwrs!

HIGGINS

Pam?

ELGAN

Roeddech chi'n anelu gwn arnai, be
 fyddech chi'n gwneud?

HIGGINS

Fel wedes i - Potsiar ar dir y Meistir!

ELGAN

Na!

ELIZABETH

Wel pwy ych chi te?

ELGAN

Elgan Jones, y gwas newydd. Dechrau
 gwaith heddiw yn nhy Mr Talbot.

ELIZABETH

Ond wedodd neb wrthai i, bod gwas
newydd yn dechrau heddiw.

ELGAN

A pwy ych chi?

ELIZABETH

Fi yw morwyn y gegin.

ELGAN

Wel, bydde neb yn dweud wrthoch chi,
na fydde nhw - morwyn y gegin!

HIGGINS

Pam oeddet ti yn crwydro yn y goedwig?

ELGAN

Es i ar goll.

HIGGINS

Dwi wedi gweld ti o'r blaen ar yr ystad?

ELGAN

Roeddwn i yn clacyr yn gweithio ar y tir
ddim yn hir yn ôl.

HIGGINS

A nawr rwyt ti'n was ty?

ELGAN

Ie, gofynnwch i Mr Franks.

HIGGINS

Iawn, mi wnai. Paid ti a becsu.

MAE HIGGINS YN GADAEL Y GEGIN HEB EI GWN HELA

ELIZABETH (I'R GYNULLEIDFA)

(Gadawodd Higgins y gegin, a gadael ei
wn ar ôl.

MAE CLOCH Y GWEISION YN CANU. MAE ELZABETH YN TROI AT
ELGAN

MAE ELGAN YN GWELD YR HOLL FWYD O'I FLAEN. MAE'N DECHRAU BWYTA.

ELIZABETH

Mae'r bwyd na i'r bonheddigion.

Dwi'n hwyr nawr! Bydd Mr Franks yn roi stwr i fi. Dwi'n gorffod plycio'r ffesantod yna gwtio nhw, yna golchi nhw.

MAE ELGAN YN CYMRYD AFAL

Mae'r bwyd na i'r bonheddigion.

ELIZABETH

Bytodd e fel blaidd. Dim manyrs, wedodd e dim plis na thenciw.
Ti wedi byta heddiw?

ELGAN

Ydw, ond ar ôl yr holl rhedeg 'na trwy'r goedwig, dwi'n llwgu.

ELIZABETH

Pam bod dy ddillad yn wlyb?

ELGAN

Roedd mr Higgins yn redeg ar fy ôl i a cwmpes i i mewn i'r nant.

ELIZABETH

Roedd Mr Higgins yn iawn te, mi oeddet ti yn y goedwig?

ELGAN

Dim ond am ychydig.

ELIZABETH

Ai gwas ty neu'n potsiwr wyt ti?

ELGAN

Gwas ty.

CLOCH YN CANU ETO

ELIZABETH

Dyna stafell Lady isabella. Mae'r clychau wedi bod yn canu tryw'r dydd. Dydn ni gweision gegin ddim yn cael mynd fyny grisiau. Edryches i arno fe, ac allai weld bod angen bwyd arno fe.

Rydych chi'n edrych fel y gallech chi ei wneud gyda phryd bwyd iawn. Dewch i eistedd. Ni allwch fwyta'r bwyd hwn nawr, mae ar gyfer y boneddigion. Ond dwi'n gwybod cadwai peth i ti. Mae yna wastod lot o fwyd ar ôl ac rydyn ni bob amser yn ei roi i'r moch.

Gallaf roi peth mewn basged a'i gael allan o'r tŷ heb i neb fy ngweld.

ELGAN

Byddech yn gwneud hynny i mi?

ELIZABETH

Byddwn.

ELGAN

Pam?

ELIZABETH

Oherwydd fy mod yn credu y dylem bob amser helpu eraill llai ffodus na ni ein hunain.

ELGAN

Atchoo!

ELIZABETH

Dduw bendithia chi!

ELIZABETH

Co ti(Mae'n rhoi hances iddo)
Wnai moyn dwr i ti. Cyn i Mr Franks gweld ti.

ELGAN

Mr Franks?

ELIZABETH

Ie, Mae Mr Higgins wedi mynd i ôl e. Ai i
ôl dwr poeth i ti `molchi.

ELGAN

Diolch.

ELIZABETH

(I'r gynulleidfa)
(Gwenodd arnai wrth imi fynd i ôl y dwr,
ac `on i'n meddwl mai gwên o
gyfeillgarwch oedd hi. Roedd e fel angel
yn gwenu arnai. Er oedd e wedi bod yn
gas i mi, on i am helpu fe, fel y samariad
trugarog)

ELGAN

Wyt ti mynd i ol y dwr i mi te?

ELIZABETH

Wyt ti wedi hweithio mewn ty mawr o'r
blaen. Rydyn ni fel un teulu mawr hapus.
Dwi'n credu byddi di'n joio gwitho `ma

WRTH I ELIZABETH FYND I ÔL Y DWR. MAE ELGAN YN GADAEI AC YN
CYMRYD PETH O'R BWYD, A'R GWN HELA HEFYD.

ELIZABETH (I'R GYNULLEIDFA)

(Troes nôl mewn i'r gegin, a doedd dim
golwg o'r gwas yn unman. roedd yr angel
wedi diflannu. Ac roedd y gwn wedi
diflannu hefyd.)

ERBYN DIWEDD YR ARAITH RYDYN NI NÔL YN Y LLYS.

Elizabeth (parhad)

Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud ond roeddwn i wedi
addo bwyd iddo, ac rydw i bob amser yn cadw fy addewidion,
felly unwaith roedd fy shifft drosodd, a bod fy holl waith
wedi'i wneud. Cydiais yn fy siôl, a mynd allan i'r nos.

Roedd hi'n noson ofnadwy, gyda'r gwynt yn udo a'r glaw yn dod i lawr fel rhodenni grisiau. Roeddwn i'n gallu gweld lle roeddwn i'n mynd gan olau'r lleuad es i fyny at y wal derfyn lle'r oedd y bachgen yn aros. Ac yno yr oedd, ac yr oedd Mr Higgins hefyd. Roedd y bachgen yn dal y gwn. Ceisiais alw at y bachgen, ond yn sydyn...

Syrthiodd Mr Higgins i'r llawr.
Roeddwn i eisiau mynd ato, ond yna daeth yr heddlu. Roeddwn i'n meddwl fy mod i'n gwneud y peth iawn trwy helpu'r bachgen,

ELIZABETH

Roedd y crwt wedi nhwyllo i. 'On i wedi trio bod yn ffrind iddo, a helpu fe. Weles i ddim o'r bachgen eto tan heddiw. A dyna fe fynd, yr angel! Mwy fel y diafol. Wnest ti weud celwydd a lladd dyn.

ELGAN

Dyw hynny ddim yn wir.

ELIZABETH

Wnest ti lladd dyn gonest.

BARNWR

Mae rhaid bod y colled yn un fawr i weision y ty.

ELIZABETH

Ydy ma fe. Dylse fe grogi am hwnna.

BARNWR

Nid ti sydd i benderfynu beth yw fate y bachgen. Y jury fan hyn sydd i benderfynu.
Diolch yn fawr. Rydych chi yn rhydd i fynd.

ELIZABETH YN GADAEI.

BARNWR

Felly gadewch i mi gasglu'r ffeithiau hyd yn hyn.

(MORE)

BARNWR (cont'd)

Ar y diwrnod in question, aethoch chi Elgan Jones ar dir Mr Talbot without permission ac felly roeddech chi yn trespasu, er mwyn dal, lladd a dwyn anifeiliaid.

ELGAN

Ond, d'ach chi ddim yn deall!

BARNWR

How dare you interrupt my summing up.

ELGAN

Ond...

BARNWR

Silence! I shall continue.

Mr Talbot sy'n berchen ar y tir a phopeth sy'n tyfu ac yn byw ar y tir. Mae'n rhoi tai ac addysg i chi, a dyma sut rydych chi yn ei dalu e nôl. Unbelievable! Yna rydych chi yn torri mewn i dy Mr Talbot ac yn dwyn broets oddi wrth un o'i westeion.

ELGAN

Nid fi wnaeth ddwyn y broets....

BARNWR

Ac oherwydd bod Higgins ar eich ôl chi, rydych chi'n lladd e in cold blood. Fedrai ddim gweld unrhyw pwynt cario ymlaen gyda'r achos yma. Mae gymaint yn eich erbyn yn barod. Euog! Cymerwch e i ffwrdd.....

MAE'N TARO Y GAFEL I LAWR.

ELGAN

Ydw i yn cael unrhyw gyfle i ddweud 'y 'n ochr i o'r stori.

BARNWR

Be? Ond mae'n berffaith glir, rydych chi'n euog.

ELGAN

Ond nag oes rhaid i'r bobl yma clywed yr holl stori.

BARNWR

Fi sy'n rhedeg y llys ma, nid ti. Euog

ELGAN

Byddai'n crogi am hyn?

BARNWR

Am lofruddiaeth a lladrata? Wrth gwrs.

ELGAN

Ond, plis, yn enw Duw, byddwch yn drugarog. Gadewch i nhw glywed fy stori i...Rwy'n erfyn arnoch chi.

SAIB. Y BARNWR YN EDRYCH O GWMPAS Y LLYS

BARNWR

Very well. Proceed, ond fedrai ddim gweld sut fedri di ddianc o hyn!
Gad i ni glywed dy hanes.

DISTAWRWYDD.

BARNWR

Chi'n gweld, nothing to say!

ELGAN

Roeddwn....

BARNWR

Speak up boy, if you want to be heard, dydw i ddim yn gallu clywed ti!

MAE ELGAN YN DECHRAU EI STORI YN ARAF AC YN BWYLLOG

ELGAN

Roeddwn i wedi gosod trapiau y noson gynt...

BARNWR

Felly rwyt ti'n cyfadde dy fod yn trespasu
ar dir Mr Talbot!

ELGAN

Roedd rhaid i mi, doedd dim bwyd gartre
i'm teulu. Dim byd.

BARNWR

Euog!

ELGAN

Ydych chi erioed wedi gweld plant yn
mynd heb fwyd am dridiau. Roedd y
plant yn crio ac yn crio, roedd gwyneb
mam mor ddigalon. Roedd rhaid i mi
ffindo bwyd yn rhywle.

BARNWR

Ond rwyt ti'n crogi dy hun fan
hyn....Proceed!

GWELER ELGAN YN Y GOEDWIG

ELGAN

Yr oeddwn wedi gosod y trap ar dir Mr. Talbot wrth y coed y
noson gynt. Doeddwn i ddim yn mynd i weld a oedd unrhyw
anifeiliaid wedi'u dal yn y trap tan y nos, ond roedd fy
nheulu'n ysu am fwyd i'r plant. Felly cychwynnais yng ngolau
dydd. Roeddwn wedi cyrraedd cyn belled â'r coed, a gwelais
nad oedd y trap wedi dal unrhywbeth. Roeddwn yn grac ac yn
ofidus y byddwn yn mynd adref yn waglaw.

ISABELLA YN MYND

Yna clywais ferch yn crio, cuddiais, ond roedd hi'n gwneud ei
ffordd tuag at y trap

ELGAN

Pam wyt ti'n crio?

ISABELLA

What did you say? You must speak the
Queen's english!

WE RETURN TO THE SCENE IN THE WOODLAND

ELGAN
What's the matter?

LADY ISABELLA

I was riding through the woods, and something spooked my horse, it reared and I fell. My horse has bolted and I am all alone in the woods. I'm lost.

ELGAN
Dylsech chi wrando ar dy geffyl,
mae anifeiliaid yn synhwyro perygl.

LADY ISABELLA
Stop speaking that vile language.

ELGAN
You should listen to your horse, they can sense danger.

LADY ISABELLA
Are you saying that an animal is far more intelligent than a human?

ELGAN
They have an instinct yes, a survival instinct.

LADY ISABELLA
But he wasn't in any danger?

ELGAN
You don't know that.

LADY ISABELLA
I need to find my horse and get back to the house.

ELGAN
Ty? Castell.

LADY ISABELLA
Can you help me?

ELGAN
Help you? I'm not sure I should.

LADY ISABELLA

Why not? If you help me I will make sure my father will reward you.

ELGAN

Reward me? Fy nwobrwyo i.

LADY ISABELLA

Yes. My name is Lady Isabella Lennox. Who are you?

ELGAN

Elgan.

LADY ISABELLA

ELGAN?

ELGAN

It's a welsh name.

LADY ISABELLA

That's a funny name.

ELGAN

Is it? Roedd hi'n neud hwyl ar fy mhen i.

LADY ISABELLA

Yes, well funny to me. How do you spell it?

ELGAN

E-L-G-A-N.

LADY ISABELLA

So what are you doing on Mr Talbot's land?

ELGAN

I'm...

LADY ISABELLA

Are you a beater for the hunt tomorrow?

ELGAN

The hunt?

LADY ISABELLA

Yes, here on the Margam estate. My father and his business acquaintances have been invited by Mr Talbot and are going hunting. There are lots of deer here.

ELGAN

Yes, that's right. I'm the beater. I best be off and make sure there are no poachers about to get your father's game before tomorrow.

LADY ISABELLA

Oh, don't worry about that. He is not going to catch anything. These weekends are all about business, progress and money. My father buys land to build railways...

ELGAN

Prynu tir?

LADY ISABELLA

... from these lazy tenant farmers who have no money to pay their rent and so my father buys their land. He is one of the men that is responsible for making Britain great.

ELGAN

Ydy e?

LADY ISABELLA

Are you going to help me find my horse and get your reward?

ELGAN CONSIDERS IT

ELGAN

Yes, alright. If you say your father will pay me, then yes.

SUDDENLY LADY ISABELLA IS ABOUT TO WALK ONTO ELGAN'S TRAP

ELGAN

Arhoswch! Don't move

LADY ISABELLA

What's this?

ELGAN

It's a trap.

SHE SEES THE TRAP. THEY BOTH LOOK AT ONE ANOTHER.

LADY ISABELLA (CONT'D)

You are not a beater are you. You are a poacher.

Poaching is against the law.

ELGAN

Sdim dewis.

LADY ISABELLA

You have no right to be here.

ELGAN

Ond mae gen ti yr holl dir ma...

LADY ISABELLA

You are committing a crime.

I will inform Mr. Talbot at once.

LADY ISABELLA YN MYND.

ELGAN

Troes i fynd a dyna lle oedd Higgins yn anelu syth amdanai, roedd ganddo wn. Yr unig le i fynd oedd y ty mawr. Byddwn gallu dianc trwy'r gerddi. Wrth i mi fynd rownd i ffrynt y ty weles i lwyth o bobl crand yn cyrraedd, felly es i rownd cefn y ty. Weles i drws, rhedes i mewn, ac yna roeddwn i mewn cegin enfawr. Gyda `r holl fwyd yma. Dwi erioed `di gweld gymaint o fwyd.

Yn sydyn agorodd y drws, weles i'r forwyn ac mi guddiais i o dan y bwrdd.

YN SYDYN DAW ELIZABETH I MEWN I'R GEGIN

HIGGINS

Wel ydy e gen ti?

ELIZABETH

Be wyt ti'n feddwl? Roedd y snoben Lady Isabella Lennox wedi mynd i ferlota. Neb yn ei `stafell.

MAE'N DANGOS Y BROETS IDDO.

HIGGINS

Perffaith. Sgwn i faint o arian gawn ni am hyn?

ELIZABETH

Arhosa, Mae pethau wedi newid. Mae rhywun wedi galw'r heddlu.

HIGGINS

Yr Heddlu, be' wnawn ni nawr?

ELIZABETH

Dwi ddim yn gwybod ond mae un peth yn sicr, mae'n rhaid i ni gael e mas o'r ty.

HIGGINS

Wel, a i ag e?

ELIZABETH

Allet ti ddim, mae Mr Talbot wedi rhoi gorchymyn i neb adael nes i bawb gael eu archwilio.

HIGGINS

Pawb? Wel, dwi ddim moen e?

ELIZABETH

Na fi!

HIGGINS

On dy syniad di oedd e i ddwyn e.

ELIZABETH

`Drycha `ma rhaid i ni gael gwared ag e.

CLOCH.

HIGGINS

Rhaid i ni guddio hi fan hyn te.

MAE'N CEISIO CUDDIO HI MEWN LLEFYDD GWAHANOL.

HIGGINS

'Nai guddio fe yn y gacen.

ELIZABETH

Na.

HIGGINS

Nai hwpo fe lan y ffowlyn?

ELIZABETH

Na!

HIGGINS

Dan y ford te?

MAE ELIZABETH A HIGGINS YN GWELD ELGAN O DAN Y FORD.

ELIZABETH

Na!

HIGGINS

Pam?

MAE ELGAN YN CEISIO DIANC

ELIZABETH

Mae'r heddlu wedi dechrau archwilio bob
'stafell yn y ty!

MAE ELIZABETH A HIGGINS YN EDRYCH O DAN Y BWRDD

ELIZABETH

Pwy wyt ti te?

MAE HIGGINS YN PWYNTIO'R GWN AT ELGAN

ELGAN

'Drycha dwi dim ond yn edrych am fwyd.

HIGGINS

Potsio ife?

ELGAN

Dim ond yn edrych am fwyd i fy nheulu.

HIGGINS

Mae yn erbyn y gyfraith i botsio, allai arestio ti nawr.

ELGAN

Dwi'n gw'bod, ond plis byddwch yn drugarog!

HIGGINS

Trugarog, dwi mynd i gael fy ngwobr!

MAE ELIZABETH YN GAFAEL YN HIGGINS

ELIZABETH

Arhosa eiliad, paid bod yn fyrbwyll!

MAE ELIZABETH YN TROI NÔL AT ELGAN

ELIZABETH

Esgusoda fy ffrind, does ganddo dim manyrs o gwbl. Felly, ti eisiau bwyd ife?

ELGAN

Ydw dwi bron a llwgu.

ELIZABETH

Wel, wnawn ni roi bwyd i ti. Ond ddim fan `yn. Ar ochr pella yr ystad, ochr draw i'r goedwig, ma' `na wal yn ffinio yr ystad. Os arhoswch chi ger y wal yn y goedwig pan yw'r haul yn machlud, wnawn ni ddod a bwyd i ti, digon o fwyd i ti a dy deulu i f'yta am fisoedd. Bydd dim angen potsio rhagor.

ELGAN

Ti'n addo?

ELIZABETH

Wrth gwrs.

MAE HIGGINS YN YSGWYD EI BEN. MAE ELGAN YN TROI I FYND

ELIZABETH

Arhosa eiliad dwi heb gwpla `to. Mae rhaid i ti wneud rhywbeth i ni.

ELGAN

Beth?

ELIZABETH

Dweud dim am be glywest ti heddiw yn y gegin. Ti'n deall?

ELGAN

Glywais i dim byd.

ELIZABETH

Da iawn.

WRTH I ELIZABETH EGLURO'R CYNLLUN I ELGAN. MAE HIGGINS YN RHOI Y BROETS I FEWN I BOCED ELGAN

ELGAN

Gadewais i'r ty. Er `on i'n gwybod bod y forwyn a Higgins yn anonest, `on i angen y bwyd. Yr unig beth ar fy meddwl oedd y bwyd y byddwn yn ei fwyta y noson honno. Yr unig beth oedd angen i mi wneud oedd cyrraedd y wal erbyn 7 o'r gloch a pheidio â chael fy nal. Pan gyrhaeddais wal y ffin, roedd yn oeri. Dechreuodd fwrw glaw. Roedd y cymylau yn yr awyr yn gorchuddio'r lleuad ac yn troi popeth yn ddu. Ni allwn weld fy llaw o flaen fy wyneb. Roedd ofn arnaf. Gallwn glywed y coed yn siglo a chrician yn y gwynt, a'r dail yn chwyrlio o'm cwmpas. Roedd yn anodd cerdded wrth i'r gwynt gryfhau. Penderfynais gysgodi y tu ôl i goeden. Cododd y cymylau ac roedd popeth yn disgleirio yng ngolau glas y lleuad unwaith eto. Roedd y cysgodion yn chwarae wic wew gyda fy llygaid. Roedd hi mor oer, chwipiodd y gwynt fy wyneb a thynnais fy siaced yn agosach at fy nghorff.

(MORE)

ELGAN (cont'd)

Wrth i mi wneud hynny, aeth fy llaw i mewn i'm poced, ac yna roedd darn o fwslin. Agorais y defnydd a gweld tlws hyfryd. Roedd y gemau yn dallu fy llygaid yng ngolau'r lleuad. Nid oeddwn erioed wedi gweld unrhyw beth mor brydferth a mor werthfawr. Yn sydyn cuddiodd y cymylau y lleuad eto, ac roedd hi'n dywyll. Cydiais yn dynn yn y tlws. Roedd y forwyn a Higgins wedi nhwyllo i. Dylwn ei ddychwelyd ar unwaith. Ond wedyn meddyliais, gallwn werthu hwn a chael arian i brynu bwyd i fy nheulu. Ond nid fy un i ydoedd. Roedd angen i mi ei roi yn ôl, ond pwy fyddai'n fy nghredu? Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud am y gorau. Yn sydyn clywais leisiau yn dod yn agos...

DAW HIGGINS A ELIZABETH I MEWN GYDA'R GWN WRTH I ELGAN GYSGU. MAE'R STORM YN CYNYDDU AC MAE'R DDAU YN MYND ATI I EDRYCH AM ELGAN. MAE ELIZABETH YN FFEINDIO ELGAN YN CYSGU AC YN EDRYCH AM Y FROETS. MAE ELGAN YN DEFFRO.

HIGGINS

Ble mae'r broets?

ELGAN

Higgins oedd yna!

ELIZABETH

Rho'r broets i ni!

ELGAN

Ac Elizabeth

ELGAN

Lle ma'r bwyd?

HIGGINS

Paid a bod mor dwp. Wyt ti wir yn credu byddwn ni wedi rhoi bwyd i ti?

ELIZABETH

Higgins, cer ar i ôl e.

ELGAN

Gorchuddiodd y cymylau y lleuad, a doedd dim goleuni,

Cydiodd Higgins ynof a cheisio cael y broetsh. Ceisiais dorri'n rhydd a rhedeg i ffwrdd, ond yna ...

MAE HIGGINS YN GAFAEL AR ELGAN. MAE'R DDAU YN YMLADD YNA YN SYDYN...

ELGAN

Aeth y cymylau heibio'r lleuad ac yn y golau roeddwn i'n gallu gweld Higgins ar y ddaear. Roedd ei dillad yn wlyb gyda gwaed. Nid oedd Elizabeth i'w gweld yn unman. Yna daeth plismon.

DISTAWRWYDD

ELGAN (cont'd)

Wnes i ddim lladd Higgins. Plîs credwch fi, dyna'r gwir.

BARNWR

Yn anffodus Elgan Jones, y jury sydd i benderfynu dy ffawd di.

Ydy Elgan Jones yn euog o drespasu a potsio?

Ydy Elgan Jones yn euog o ddwyn broets Lady Isabella Lennox?

Ydy Elgan Jones yn euog o lofruddio Mr Higgins yr is gipar?

Mae rhaid i bob fforman ysgrifennu i lawr y dyfarniad, a yw e'n euog neu'n ddieuog ar bob gyfrif.

Ystyriwch beth ydych chi wedi clywed heddiw. Pwy sy'n dweud y gwir. Pwy sy'n dweud celwydd. Mae cyfle i chi drafod y mater nawr gyda'ch grwp.

RHEITHGOR YN TRAFOD.

BARNWR (cont'd)

Oes gennych chi ddyfarniad?

Ar y cyhuddiad o drespasu....euog.

(MORE)

BARNWR (cont'd)

Ar y cyhuddiad o ddwyn broets lady
Isabella.....di euog. Ac ar y cyhuddiad o
lofruddio Higgins yr is gipar..... Di euog.

BARNWR

Am drespasu ar dir Mr Talbot I sentence
you i 18 months hard labour, Mi fydd eich
rhieni yn colli eu ty, a cael eu danfon i'r
wyrchw. Court dismissed.

MAE'R GOLAU YN PYLU, AC YN GADAEI ELGAN MEWN GOLAU. YNA
BLACOWT.

CLYWER EMYN YN CAEL EI GANU

Y DIWEDD.